

DOLEN Y TAB 62

2–3 Gorffennaf 2021

* Oedfa Rithiol Sul 4 Gorffennaf*

Yng nghwmni'r Parchg. Aled Edwards.

Oedfaon yr Wythnosau Nesaf

Gorffennaf

- 11 **9.45** Oedfa'r Cyfundeb. Ymuno'n rhithiol gyda'r oedfa o'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr.
[DS Cyhoeddir manylion ymuno yn Oedfa'r Cyfundeb 'yn fyw' dros Zoom yn Dolen y Tab yr wythnos nesaf, ynghyd â'r manylion cyswllt i wyllo recordiad o'r cwrdd ar YouTube a Facebook yn ddiweddarach yn y dydd]
- 18 Yng ngofal Geraint Rees a'i gyfeillion.

Hefyd ddydd Sul 4 Gorffennaf

12:00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Huw Dylan, Llangwm.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Mae Lol Delbridge wedi cysylltu i egluro bod y Banc Bwyd yn casglu bwyd yn Tesco Tonysguboriau ddydd lau, Gwener a Sadwrn 15, 16, 17 Gorffennaf. Mae hi'n awyddus i ni wybod ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un o'r Tabernacl ymuno, am fod llawer ohonom wedi gwneud hynny yn y gorffennol.

Mae ein casgliad ariannol at y Banc Bwyd yn dal yn weithredol, a dydy Lol ddim am roi pwysau ar neb. Fyddwn ni ddim yn trefnu rota, ond os oes unrhyw un eisiau ymuno, gadewch i mi wybod, gan nodi diwrnod ac amser, ac fe gysyllta i â Lol.

ann.pentyrch@btinternet.com

Tynged ein cais i'r Undeb

Ers i'r eglwys gyflwyno cais i Undeb yr Annibynwyr ddiwedd Mai am nawdd ariannol fel rhan o'u rhaglen Arloesi a Buddsoddi, rydym wedi bod yn aros yn betrusgar am ddyfarniad y Panel Dewis, gan obeithio'n fawr y byddem yn derbyn newyddion da fyddai'n codi calonnau pob un ohonom yn ystod y cyfnod anodd hwn.



Byddwch yn cofio i'r Bwrdd sefydlu Is-bwyllgor yn ôl ym mis Ionawr i ystyried a oedd gwahoddiad yr Undeb yn cynnig cyfle i ni gryfhau'r achos yn y Tabernacl ac ymestyn ein cymorth i'r gymuned leol. Trwy gymryd stoc o gryfderau a gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau i'r eglwys mewn ymarferiad SWOT, a chynnal cyfres o gyfarfodydd ymgynghorol, gwelwyd fod gennym gonsensws pa prosiect y dylem ei flaenoriaethu – sef cyflogi Swyddog Ieuentid a Chymunedol rhan-amser fyddai'n ysgogi a chydlynu gweithgareddau amrywiol ymhlith yr ieuentid a rhieni ifanc yr eglwys. Derbyniodd cynnig yr Is-bwyllgor sêl bendith y Cwrdd Eglwys ar 27 Mai.

Rhyddhad o'r mwyaf, felly, oedd derbyn neges ffôn ddechrau'r wythnos hon gan Robin Samuel, Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Undeb, i ddweud bod ein cais wedi ei dderbyn yn llawn, sef swm o £10,000 y flwyddyn am 5 mlynedd i'n galluogi i gyflogi swyddog. Newyddion gwych, ond cwbl deilwng, o gofio trylwyredd gwaith yr Is-bwyllgor a chydweithrediad parod a mewnbwn gwerthfawr aelodau'r Bwrdd a'r gynulleidfa. Wrth gwrs, dechrau'r daith yn unig yw hyn, gan mai'r dasg nesaf i ni fydd sicrhau ein bod yn recriwtio person cymwys i wynebu heriau'r swydd. Bydd y dasg honno'n dechrau yr wythnos nesaf.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 13 Gorffennaf. Os oes unrhyw fater yr hoffech ei godi, yna cysylltwch ag Ysgrifennydd y Bwrdd erbyn nos Lun 12 Gorffennaf fan bellaf. (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 07710 237327).



Chwifiwn ein baneri



**‘Chwifiwn ein baneri
Yn yr awel iach,
Seiniwn glod i’r Iesu
Ar bob gwefus fach.’**

Pan glywaf bennill cyntaf emyn y gweinidog a’r bardd J.J. Williams (1869–1954) yn cael ei chanu, ceisiaf ddyfalu pa ddelwedd oedd ganddo mewn golwg wrth lunio’r geiriau. Rwy’n hoffi meddwl mai atgof hiraethus ohono’n gorymdeithio ar hyd y ffordd fawr y tu ôl i faner anferth fel un o griw hwyliog plant ysgolion Sul ardal Tal-y-bont, Ceredigion, i ddathlu Sul y Pentecost a ysgogodd ei awen. Wedi cyfan, erbyn ei ben-blwydd yn 13 mlwydd oed, bu’n rhaid i’r teulu cyfan symud o’i ardal enedigol i Benrhiwceibr i osgoi tloedi enbyd pan edwinodd gweithfeydd plwm gogledd Ceredigion. Mae’n bosib ei fod, wrth gwrs, fel yr hynaf o 12 o blant, yn tynnu ar ei brofiad o wyllo’i frodyr a’i chwirydd iau yn gorymdeithio gyda phlant ysgolion Sul Cwm Cynon – ond go brin bod yr awel mor ‘iach’ yno bryd hynny o’i gymharu â’r awel yng Nghwm Eleri!

Baneri’r Pentecost

Mae’n anodd i ni heddiw amgyffred pa mor boblogaidd oedd gorymdeithiau i ddathlu’r Pentecost yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. I’r plant, roedd yr achlysur yn un o uchafbwyntiau’r flwyddyn. Yn ychwanegol at y cyffro o ymuno yn yr orymdaith, a’r te parti i ddilyn, dyma hefyd un o’r adegau prin hynny yn ystod y flwyddyn y byddai’r plant yn cael dillad newydd fel eu bod yn edrych ar eu gorau. Gan fod y capeli anghydfurfiol a’r eglwysi gwladol yn ymuno â’i gilydd i ddathlu’r achlysur hwn, roedd yn un o ddigwyddiadau ecwmenaidd prin y cyfnod. Serch hynny, mae’n siŵr bod yna ymgiprys rhyng-enwadol ‘answyddogol’ o ran pa gapel neu eglwys oedd â’r faner fwyaf trawiadol i’r plant ei dilyn!



Arwyddocâd Hanesyddol

Yn yr Oesoedd Canol, roedd yn arferiad i fyddinoedd gludo eu baner i ryfeloedd. Gwelwyd y faner fel symbol o falchder ac fel modd o atgyfnerthu ysbryd y milwyr cyn ac yn ystod y frwydr – ond yn fwy pragmataidd fel modd i wahaniaethu rhwng cynghreiriaid a gelynion ar faes y gad. Yn ddiweddarach y datblygodd yr awydd gan wledydd y

byd i fabwysiadu baner genedlaethol. Gan amlaf, ffactorau hanesyddol, diwylliannol neu grefyddol yn hytrach na phenderfyniad mympwyol oedd y tu cefn i liwiau a chynllun baneri. Yn arwyddocaol iawn, mae cynllun nifer o faneri cynnar gwledydd Ewrop a ddefnyddir hyd heddiw wedi eu seilio ar y Groes (e.e. Denmarc, Ffindir, Gwlad Groeg, Lloegr, Norwy, Sweden, Swistir, Yr Alban). Mae’n debyg mai byddinoedd y Croesgadau oedd yn gyfrifol am boblogeiddio baneri ar gynllun y Groes. Croes ddu ar gefndir melyn yw cynllun baner nawddsant Cymru hefyd, a dim ond un wlad arall trwy’r byd i gyd sy’n cario llun draig, er mai draig wen sydd ar faner Bhutan. Yn y nawfed ganrif, yn ei lyfr *Historia Brittonum*, mae Nennius yn disgrifio brwydr rhwng draig goch y Brythoniaid a draig wen y Sacsoniaid yn Ninas Emrys. Yn ôl yr ‘hanes’, trechwyd y ddraig wen ac o ganlyniad fe esblygodd y ddraig goch dros amser yn symbol cenedlaethol y Cymry. Serch hynny, bu’n rhaid aros hyd at y flwyddyn 1959 cyn i’r faner bresennol dderbyn sêl swyddogol.

Brwydr Ddiwylliannol

Gan amlaf, bydd arweinwyr gwledydd democrataidd y byd yn croesawu’r ffaith bod mwyafre eu dinasyddion yn ymfalchio yn eu baner genedlaethol. Ar y llaw arall, mae disgwyliadau arweinwyr gwledydd totalitaraidd yn fwy gormesol, a gall trigolion sy’n dangos yr amharch lleiaf tuag at faner eu gwlad fod mewn perygl o gael eu cosbi’n llym gan fod hynny’n cael ei weld yn gyfystyr â gweithred o deyrnfradwriaeth. Dylai pawb yng Nghymru bryderu, felly, wrth sylweddoli pa mor beryglus yw cynllun haerllug a sinicaidd arweinwyr ac aelodau un blaid wleidyddol i orfodi baner Jac yr Undeb arnom fel dinasyddion. Yn yr Oesoedd Canol, codi cestyll cadarn i ddofi’r Cymry oedd y drefn, ond mae’n amlwg mai codi baneri anferth ar ein hadeiladau cyhoeddus yw’r strategaeth ddiweddaraf. Roedd plant ein hysgolion Sul gynt yn gweld y faner a chwifient fel symbol o’u balchder a’u hymlyniad gwirfoddol dros yr achos a gynrychioliodd gan y faner. Ond trwy orfodi baner benodol ar ddinasyddion anfoddog, a bygwth eu hunaniaeth yn yr un gwynt, fe gollant unrhyw barch oedd ganddynt. Yr ymateb mwyaf effeithiol iddynt yw ein bod ni’n mynd ati ar bob cyfle posibl i chwifio ein baneri ni ein hunain.

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205.